

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth; Mid Wales Corporate Joint Committee

CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL
CANOLBARTH CYMRU (CTRHCC)

Asesiad Llesiant Integredig

Polisi (neu Grŵp Polisi)	Sut bydd y polisi o fudd i bobl a chymunedau?			Sut bydd y polisi o fudd i'r amgylchedd?			Sut bydd y polisi o fudd i lleoedd a'r economi?				Sut bydd y polisi o fudd i ddiwylliant a'r Gymraeg?		
	Cydradd-oldeb	Iechyd	Diogelwch a Hyder	Lleihau Allyriadau Carbon a Newid Moddol	Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau	Lleihau Gwastraff	Creu Lleoedd (lleoedd, ardaloedd gwledig, swyddi)	Arloesedd Trafnidiaeth Gynaliadwy	Dosbarthu Nwyddau mewn Modd Cynaliadwy	Fforddiad-wyedd	Y Gymraeg	Celfyddydau a Chwaraeon	Amgylchedd Hanesyddol
Grŵp Polisiâu Cynllunio Defnydd Tir	+	++	+	+++	+	+	++	0	+	0	+	+	+
	Cydraddoldeb (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae tuag 1% o'r boblogaeth yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 800m o orsaf drenau, o'i gymharu ag 13% ar draws Cymru gyfan. Mae ychydig dros 25% o bobl yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 400m i safle bws, o'i gymharu â 70% ar draws Cymru (<i>Llwybr Newydd: Data a thueddiadau trafnidiaeth, 2020; Mesur Allweddol S3 - TrC</i>). Mae diffyg cysylltedd cynaliadwy â thrafnidiaeth gyhoeddus yn tynnu sylw at rwystr ffisegol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, gan atal pobl, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, rhag cael mynediad at wasanaethau allweddol sy'n hanfodol i fywyd bob dydd. Buddion Polisi Bydd Polisi LUP5 yn ceisio cefnogi polisiâu sy'n sicrhau bod gwasanaethau newydd wedi'u lleoli'n agosach at ble mae pobl yn byw ac yn cefnogi gweithredu hybiau symudedd hawdd eu cyrraedd i ymgorffori gwasanaethau lleol, canolfannau busnesau bach a lleoedd ar gyfer rhannu mannau gwaith. Ymgysylltu Roedd adborth o'r ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos bod mynediad at dtrafnidiaeth gyhoeddus yn broblem fawr yn rhanbarth Canolbarth Cymru, gyda sawl un yn dweud nad yw'n bosibl cyrraedd llawer o orsafoedd bysiau neu drenau heblaw mewn cerbyd preifat.			Lleihau Allyriadau Carbon a Newid Moddol (+++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r car yw'r dull teithio mwyaf cyffredin yng Nghanolbarth Cymru ac yn cyfrif am dros 50% o deithiau cymudo ym Mhowys a Cheredigion. Mae perchnogaeth ceir yng Nghanolbarth Cymru yn uwch nag yng ngweddill Cymru, gyda 15% ac 13% o gartrefi ym Mhowys a Cheredigion yn berchen ar 3 neu ragor o gerbydau, o'i gymharu â 10% ar draws Cymru gyfan. Budd Polisi Yn wahanol i grwpiau polisi eraill, mae polisiâu cynllunio defnydd tir yn ceisio lleihau'r angen o gwbl. O ganlyniad, gall polisiâu cynllunio defnydd tir ddylanwadu'n anuniongyrchol ar newid moddol, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl y gellir eu cyrraedd ar droed neu ar feic. Bydd polisiâu cynllunio defnydd tir yn helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol a rhanbarthol o gyflawni Sero Net erbyn 2050, a thargedau lleihau rhanbarthol o 54%. Mae LUP3 yn enghraifft benodol neu'n bolisi sy'n ceisio datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth, lle bydd yn sicrhau bod pob datblygiad newydd, gan gynnwys ysgolion a chyfleusterau iechyd newydd, wedi'i gynllunio i gefnogi cysylltedd cerdded a beicio o'r cychwyn cyntaf. Bydd y polisi hwn yn helpu i annog pobl i newid dulliau teithio o gerbydau preifat i ddulliau trafnidiaeth llesol. Bydd LUP5 yn ceisio cefnogi polisiâu sy'n sicrhau bod gwasanaethau newydd wedi'u lleoli'n agosach at ble mae pobl yn byw ac yn cefnogi gweithredu Hybiau Symudedd hawdd eu cyrraedd i ymgorffori gwasanaethau lleol, canolfannau busnesau bach a lleoedd ar gyfer rhannu mannau gwaith. Byddai'r polisi hwn yn cynorthwyo gydag uchelgeisiau ar raddfa fwy i leihau allyriadau carbon, gan wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr, a hwyluso perthynas well rhwng dulliau teithio gwahanol i liniaru gwneud teithiau milltir gyntaf a milltir olaf mewn cerbydau preifat. Ymgysylltu Roedd barn rhanddeiliaid wedi cadarnhau bod angen newid moddol er mwyn helpu i gyfrannu at dargedau Sero Net cenedlaethol a rhanbarthol. Yn gysylltiedig â'r pwnc hwn oedd yr angen am ddewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy gwell i hwyluso newid dulliau o'r cerbyd preifat.			Creu Lleoedd (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio creu lleoedd fel 'dull cyfannol o gynllunio a dylunio mannau...', lle mae'r nod yw creu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, hapusrwydd, iechyd a llesiant (<i>Creu Lleoedd Cymru, 2020</i>). Budd Polisi Nod penodol Polisi LUP4 yw gwella ansawdd lleoedd trwy gymhwyso egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru, a nod penodol polisi LUP5 yw cefnogi gweithredu Hybiau Symudedd, lle bydd canolfannau busnesau bach a lleoedd ar gyfer rhannu mannau gwaith yn caniatáu i bobl fyw a gweithio yn yr un lle gan greu canolfannau lleol ffyniannus. Bydd y polisiâu hyn yn helpu i ddarparu lleoedd o ansawdd uchel yng Nghanolbarth Cymru, gan greu mannau lle mae pobl am fyw a fydd, yn ei dro, yn rhoi hwb i'r economi leol trwy gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanolfannau lleol. Mae tua 30% o boblogaeth Powys a Cheredigion yn gweithio o gartref, sef y gyfran uchaf o weithwyr gartref ar ôl Caerdydd, Sir Fynwy a Bro Morgannwg yng Nghymru (SYG, 2021). Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu lleoedd o safon i bobl ar garreg eu drws, lleoedd lle y gellir cael mynediad at wasanaethau hanfodol trwy ddulliau llesol heb yr angen i wneud daith hir yn y car. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd pwysigrwydd dilyn egwyddorion creu lleoedd er mwyn sicrhau bod canolfannau lleol yng Nghanolbarth Cymru, ar draws aneddiadau trefol a gwledig, yn cael eu cefnogi.				Y Gymraeg (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae gan Geredigion y drydedd boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 44%, gyda thua 16% ym Mhowys (Cyfrifiad, 2021). O ganlyniad, mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, ac er mwyn amddiffyn a gwella'r iaith rhaid i bolisiâu'r CTRh hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg. Buddion Polisi Gall polisiâu cynllunio defnydd tir a'u nod o leihau'r angen i deithio helpu i ddod â gwasanaethau Cymraeg a digwyddiadau hamdden yn agosach at ble mae pobl yn byw. Felly, rhagwelir y bydd polisiâu cynllunio defnydd tir yn cael effaith gadarnhaol ar fynediad pobl at wasanaethau Cymraeg, megis gwasanaethau addysgol ac iechyd. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd pwysigrwydd cefnogi mynediad at wasanaethau Cymraeg yng Nghanolbarth Cymru, gyda llawer o wasanaethau Cymraeg pwrpasol yng Nghanolbarth Cymru wedi'u lleoli y tu allan i'r ardaloedd trefol mwyaf.		

Iechyd (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae ansawdd aer ym Mhowys a Cheredigion yn dda iawn ar y cyfan. Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gweithredol o fewn ffiniau'r naill awdurdod lleol neu'r llall. O ganlyniad, ychydig iawn o fonitro parhaus sydd ar gael yn y naill ardal neu'r llall, ac nid yw un o'r awdurdodau yn gweithredu dulliau monitor awtomatig, gyda monitro cyfyngedig gan diwbiau tryledu yn unig. Er gwaethaf lefelau da o ansawdd aer ar hyn o bryd, teithio mewn car preifat yw'r dull teithio mwyaf cyffredin ar gyfer cymudo yn y rhanbarth, sef rhwng 50% a 60% ym mhob awdurdod lleol (Cyfrifiad 2021). Felly, bydd angen monitro ansawdd yr aer i sicrhau ei fod yn parhau ar lefel iach. Budd Polisi Mae polisïau cynllunio defnydd tir yn cyfrannu'n gadarnhaol at nodau ansawdd aer cenedlaethol a rhanbarthol o gyflawni Sero Net erbyn 2050. Nod Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru (2020) yw lleihau allyriadau trafnidiaeth ffyrdd gan 54%, sef y gostyngiad targed sectorol mwyaf yn y strategaeth. Gall polisïau cynllunio defnydd tir gynorthwyo gyda'r gostyngiad hwn er mwyn gwella ansawdd aer a swm, gan warchod yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Mae Polisi LUP3 yn enghraifft benodol sy'n ceisio datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth a gwella ansawdd aer a swm trwy sicrhau bod pob datblygiad newydd, gan gynnwys ysgolion a chyfleusterau iechyd newydd, wedi'i gynllunio i gefnogi cysylltedd cerdded a beicio o'r cychwyn cyntaf. At ei gilydd, nid yw polisïau'r CTRh yn debygol o effeithio'n negyddol ar gydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer ac ychydig iawn o risg sydd o fynd uwchlaw'r safonau ansawdd aer drwy weithredu'r polisïau hyn. Ymgysylltu Codwyd pwysigrwydd datgarboneiddio'r ffordd y mae pobl yn teithio, ond hefyd negyddu'r angen i deithio o gwbl er mwyn gwarchod iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid. Trafodwyd y newid i ULEV a darparu'r seilwaith angenrheidiol er mwyn i gerbydau o'r fath ffynnu, ochr yn ochr â mesurau meddalach wedi'u targedu ar weithleoedd a chyfleusterau addysgol i ddylanwadu ar newid ymddygiad o deithio yn y car i ddulliau teithio gwyrddach.	Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Canolbarth Cymru yn ardal o dirweddau amrywiol, yn gartref i amrywiaeth o goetiroedd, mynyddoedd a thir amaeth. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n cwmpasu 34% o dirfas Cymru (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae rhwng 10% a 12% o dirfas Ceredigion a Phowys wedi'i orchuddio gan safleoedd sydd o dan warchodaeth statudol. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r ardaloedd hyn yn ddigon ar eu pennau eu hunain i atal dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth (fersiwn drafft Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion 2024; Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys, 2022). Budd Polisi Nod Polisi LUP4 yw gwella ansawdd lle trwy warchod a gwella amgylcheddau naturiol, adeiledig a hanesyddol a chymhwysu'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Siarter Creu Lleoedd Cymru. Ymgysylltu Codwyd gwarchod yr amgylchedd yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig yr angen i hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy i warchod a gwella cynefinoedd ecosystem tywod yn y rhanbarth.	Arloesedd Trafnidiaeth Gynaliadwy (0) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Powys a Cheredigion yn gwneud cynnydd tuag at helpu Cymru i gyflawni ei nod Sero Net erbyn 2050. Mae'r rhanbarth yn archwilio ymyriadau arloesol i gefnogi trafnidiaeth gynaliadwy ar ffurf cerbydau allyriadau isel a dyfeisiau gwefru sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae Cynlluniau Ynni Lleol ar gyfer Powys a Cheredigion (2024) yn dangos bod 1% o gerbydau ym mhob awdurdod lleol yn gwbl drydanol ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, Ceredigion sydd â'r nifer uchaf o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef tua 176 (yr uchaf yng Nghymru), tra bod gan Bowys tua 85 o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesur Monitro S10). Budd Polisi Mae polisïau cynllunio defnydd tir yn canolbwyntio ar leihau'r angen i deithio. O ganlyniad, ni ragwelir y bydd unrhyw fuddion sylweddol i'r arloesedd trafnidiaeth gynaliadwy yn deillio o bolisïau cynllunio defnydd tir. Ymgysylltu Ni chafodd arloesi trafnidiaeth gynaliadwy mewn cysylltiad â chynllunio defnydd tir ei grybwyll yn ystod y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid.	Celfyddydau a Chwaraeon (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn bwysig ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol, cynhwysiant cymdeithasol, cryfhau cysylltiadau cymunedol a datblygu sgiliau bywyd allweddol. Oherwydd natur wledig llawer o aneddiadau yn rhanbarth Canolbarth Cymru, bydd cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn anoddach yn aml oherwydd lleoliad digwyddiadau o'r fath a'u hagosrwydd at y lleoedd lle mae pobl yn byw. Er mwyn atal llesiant meddyliol, unigedd a chysylltiadau cymunedol rhag dirywio, mae'n bwysig bod ymyriadau trafnidiaeth yn amddiffyn cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon yng Nghanolbarth Cymru. Budd Polisi Drwy leihau'r angen i deithio a dod â gwasanaethau allweddol i'r lleoedd lle mae pobl yn byw, mae polisïau cynllunio defnydd tir yn gwella cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol heb yr angen i deithio pellter hir. Felly, disgwylir i bolisïau cynllunio defnydd tir ddarparu buddion o ran llesiant corfforol a meddyliol o ganlyniad i ddod â gwasanaethau i bobl. Ymgysylltu Codwyd yr angen i ddod â digwyddiadau hamdden yn agosach at adref yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Nodwyd na ellir defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn aml i gyrraedd gweithgareddau hamdden gyda'r nos.
Diogelwch a Hyder (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae signal ffôn symudol yng Nghanolbarth Cymru ar ei hŏl hi o'i gymharu â gweddill Cymru. Dim ond 9.5% o gartrefi yng Nghanolbarth Cymru sydd â mynediad at 4G, a dim ond tua hanner y cartrefi sydd â gwasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr. I'w roi yn ei gyd-destun, mae gan 73% o gartrefi yng ngweddill Cymru wasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae signal 4G yn hanfodol ar gyfer diogelwch a hyder defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu taith, newid eu cynlluniau teithio, paratoi ar gyfer diffygion trafnidiaeth gyhoeddus a phrynu tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus ar-lein. Er gwaethaf gwelliannau arfaethedig i'r rhwydwaith 4G yng Nghanolbarth Cymru trwy'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ni fydd llawer o rannau o	Lleihau Gwastraff (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru yn nodi fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae lleihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn chwarae rôl allweddol yn hyn, yn enwedig yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae nod cyffredinol y targed hwn yn cyd-fynd yn agos â thargedau Sero Net y genedl, sef lleihau faint o wastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth erbyn 2050. Budd Polisi Drwy leihau'r angen i deithio, rhagwelir y bydd polisïau cynllunio defnydd tir yn lleihau'r galw i ddefnyddio'r rhwydwaith priffyrdd yng Nghanolbarth Cymru. O ganlyniad i'r lleihad hwn yn y galw, rhagwelir y bydd yr angen am ymyriadau priffyrdd ychwanegol yn cael ei leihau ac y bydd y galw llai hwn yn cynnig cyfle i ailddyrrannu a gwneud defnydd gwell o'r gofod ffyrdd presennol. Rhagwelir y bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar leihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru.	Dosbarthu Nwyddau mewn Modd Cynaliadwy (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Strategaeth Cludo Nwyddau y Gororau a Chanolbarth Cymru (2021) yn amlinellu'r nod o leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwyrdr sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi rhagweld twf o 40% mewn cludo nwyddau mewn cerbydau nwyddau trwm rhwng 2010 a 2040, gan bwysleisio pwysigrwydd annog y defnydd o danwydd allyriadau isel ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Budd Polisi Er nad yw polisïau cynllunio defnydd tir yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gyflwyno ffordd fwy cynaliadwy o ddosbarthu nwyddau, maent yn caniatáu i bobl gael mynediad at y nwyddau a'r gwasanaethau y mae eu hangen yn lleol ac yn dileu'r angen am ddosbarthu pellter hir. Ymgysylltu Trafodwyd cyfleoedd i leihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau mewn gweithdai rhanddeiliaid a'r angen i ystyried sut y gellir cyflawni hyn.	Amgylchedd Hanesyddol (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Gellir dod o hyd i lawer o atyniadau twristiaid Canolbarth Cymru mewn lleoliadau gwledig, ac maent yn safleoedd hanesyddol yn aml. Yn 2019, cynhaliwyd Arolwg Ymweliadau Dyddiol Prydain Fawr (2019), gan nodi bod y gyfran fwyaf o fathau o deithiau i Ganolbarth Cymru wedi cael eu gwneud i bentrefi/cefn gwlad (44%). Yn 2019, y trydydd awdurdod lleol a ymwelwyd ag ef fwyaf ar ôl Caerdydd ac Abertawe oedd Powys gyda 6.9 miliwn o ymweliadau. Wedi'i gofnodi yn yr un arolwg, Ceredigion oedd yr ail ardal fwyaf arwyddocaol yng Nghymru o ran gwariant ar ôl Caerdydd, gyda £329 miliwn wedi'i wario ar ymweliadau dydd twristiaid. Buddion Polisi Er nad yw polisïau cynllunio defnydd tir yn gwella gwasanaethau trafnidiaeth i'r amgylcheddau hanesyddol eu hunain, bydd eu gallu i leihau'r angen i deithio yn lleddfu'r pwysau ar y rhwydwaith ffyrdd. Ymgysylltu O ganlyniad, mae'r ddau awdurdod lleol yn gartref i amgylcheddau

	Ganolbarth Cymru yn elwa o signal 4G o hyd. Mae'r rhwystr systemig hwn yng Nghanolbarth Cymru yn rhwystro pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn effeithio ar deimladau o ddiogelwch a hyder mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Budd Polisi Bydd polisïau cynllunio defnydd tir ochr yn ochr â'r lleihad yn yr angen i deithio yn cael eu hategu trwy ddarparu Hybiau Symudedd. Gan gynnig ystod eang o fuddion, gall Hybiau Symudedd helpu i leihau tagfeydd, darparu diogelwch gwell wrth gael mynediad at ddulliau trafnidiaeth cyhoeddus i ddefnyddwyr agored i niwed, helpu i wneud cysylltu dulliau teithio cynaliadwy yn fwy cyfleus a lleihau teithiau milltir gyntaf neu filltir olaf yn y car (Canllawiau Achos Busnes Hybiau Symudedd, 2023). Bydd Polisi LUP1 yn cefnogi cynnwys Hybiau Symudedd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol a fydd, os cânt eu gweithredu, yn helpu i feithrin hyder a gwella'r teimlad o fod yn ddiogel wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth. Ymgysylltu Mewn gweithdai rhanddeiliaid cafodd diffyg mynediad at wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ar-lein a diffyg mynediad ffisegol at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus eu nodi fel rhwystrau i ddefnyddio bysiau a threnau, gan effeithio o ganlyniad ar deimladau o ddiogelwch a hyder yn y gwasanaethau a gynigir yn y rhanbarth.	Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid trafodwyd dulliau o wneud defnydd gwell o'r seilwaith presennol er mwyn lleihau gwastraff a phwysigrwydd ystyried sut y gellid gwneud hyn.	cyfartalog isaf yng Nghymru y flwyddyn honno (£594 a £574). Budd Polisi Ni fyddai polisïau cynllunio defnydd tir yn effeithio'n uniongyrchol ar bris tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus, er y gallent helpu i leihau'r angen i brynu tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus, gan ganiatáu i bobl ailddosbarthu eu hincwm gwario i gefnogi agweddau eraill ar eu bywydau. Fodd bynnag, rhagwelir na fydd polisïau cynllunio defnydd tir yn effeithio'n uniongyrchol ar bris tocynnau trafnidiaeth cynaliadwy. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid ac arolygon llesiant awdurdodau lleol nodwyd y gallai pris tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus is yn y rhanbarth gynyddu defnydd gwasanaeth.	hanesyddol sy'n cael llawer o ymwelwyr. Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd bod y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd twristiaid ar draws y ddau awdurdod lleol yn gyfyngedig, gan arwain yn aml at dagfeydd mewn atyniadau twristiaid ar draul yr amgylchedd adeiledig.
Grŵp Polisïau Hygyrchedd	++ ++ ++	++ + +	+ + + 0	+ + +
	Cydraddoldeb (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae tuag 1% o'r boblogaeth yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 800m i orsaf drenau, tra bod y ffigur ar draws Cymru gyfan yn 13%. Mae ychydig dros 25% o bobl yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 400m i safle bws, o'i gymharu â 70% yng Nghymru gyfan (<i>Llwybr Newydd: Data a thuueddiadau trafnidiaeth, 2020; Mesur Allweddol S3 - TrC</i>). Mae diffyg cysylltedd cynaliadwy â thrafnidiaeth gyhoeddus yn tynnu sylw at rwystr ffisegol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, gan atal pobl, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, rhag cael mynediad at wasanaethau allweddol sy'n hanfodol i fywyd bob dydd. Y tu allan i'r aneddiadau mwy yn y rhanbarth, mae'n cymryd o leiaf 50-60 munud i lawer o bobl gyrraedd tref/canolfan allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Wedi dweud hynny, mae llawer o smotiau du trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth lle na chynigir unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus. Dangosir hyn trwy fapio yn Adran 7.2 yr Achos dros Newid. Yn ogystal, mae Adran 6.2 yr Achos dros Newid yn dangos, mewn llawer o ardaloedd yn y rhanbarth, bod amser gadael hwyraf trafnidiaeth gyhoeddus cyn 18:00 ar nosweithiau'r wythnos a dydd Sadwrn, heb unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei chynnig ar ddydd Sul. Buddion Polisi Mae polisïau hygyrchedd yn canolbwyntio'n helaeth ar geisio gwella hygyrchedd i wasanaethau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru. Eu nod yw gwella mynediad pobl at gyfleusterau iechyd, hamdden a chyfleusterau addysgol ar y trên neu ar y bws. Yn ogystal â hyn, mae'r	Lleihau Allyriadau Carbon a Newid Moddol (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r car yw'r dull teithio mwyaf cyffredin yng Nghanolbarth Cymru ac yn cyfrif am dros 50% o deithiau cymudo ym Mhowys a Cheredigion. Mae perchnogaeth ceir yng Nghanolbarth Cymru yn uwch nag yng ngweddill Cymru, gyda 15% ac 13% o gartrefi ym Mhowys a Cheredigion yn berchen ar 3 neu ragor o gerbydau, o'i gymharu â 10% ar draws Cymru gyfan. Budd Polisi Bydd polisïau hygyrchedd yn helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer cyflawni Sero Net erbyn 2050, a thargedau lleihau rhanbarthol o 54%. Mae Acc2 yn enghraifft benodol o bolisi sy'n ceisio datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth trwy wella hygyrchedd a chysylltedd rhwng cymunedau gwledig a gwasanaethau yn y dref/canolfan wasanaeth agosaf. Bydd Acc2 yn helpu i annog pobl i newid dulliau teithio o gerbydau preifat i ddulliau teithio llesol. Bydd Acc1 yn ceisio gwella mynediad at wasanaethau allweddol a chyflogaeth trwy drafnidiaeth gynaliadwy a sicrhau bod hygyrchedd wedi'i gynllunio fel rhan o ddarparu gwasanaethau, e.e. ymchwilio i'r potensial ar gyfer darpariaeth trafnidiaeth integredig 'gwasanaethau cyfun'. Byddai'r polisi hwn yn helpu gydag uchelgeisiau ar raddfa fwy i leihau allyriadau carbon, gan wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr, a thargedu cymudwyr yn benodol. Ymgysylltu Roedd barn rhanddeiliaid wedi cadarnhau bod angen newid moddol er mwyn helpu i gyfrannu at dargedau Sero Net cenedlaethol a rhanbarthol. Yn gysylltiedig yn agos â hyn oedd yr angen am ddewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy gwell i hwyluso newid dulliau teithio o gerbydau preifat.	Creu Lleoedd (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio creu lleoedd fel 'dull cyfannol o gynllunio a dylunio mannau...', lle mae'r nod yw creu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, hapusrwydd, iechyd a llesiant (<i>Creu Lleoedd Cymru, 2020</i>). Budd Polisi Mae polisïau o dan hygyrchedd o fudd uniongyrchol i gymunedau gwledig, gan ganiatáu i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig i gael mynediad at wasanaethau hanfodol trwy drafnidiaeth gyhoeddus a fydd, yn ei dro, yn galluogi pobl i dreulio amser mewn lleoedd a chyfrannu at greu ymdeimlad o le a chefnogi busnesau a chyfleusterau lleol. Mae Acc6 yn bolisi penodol sy'n ceisio ateb anghenion cymunedau gwledig, trwy ddatblygu ac ehangu gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol a fydd yn galluogi'r rhai sydd â chysylltiadau gwael i deithio i'r lleoedd a chael mynediad at y cyfleusterau y mae eu hangen arnynt. Mae Acc5 hefyd yn ceisio dod â datrysiadau trafnidiaeth wedi'u teilwra i gymunedau gwledig trwy weithredu trafnidiaeth seiliedig ar alw mewn cymunedau gwledig sy'n ateb anghenion lleol ac sydd wedi'u hintegreiddio a'u cydlynu â'r rhwydwaith bysiau ehangach e.e. y posibilrwydd o ehangu gwasanaeth Fflecsi TrC i Ganolbarth Cymru. Ymgysylltu Roedd ateb anghenion penodol cymunedau gwledig yng Nghanolbarth Cymru yn thema greiddiol yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda nifer o randdeiliaid yn nodi bod mynediad at weithgareddau hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus yn broblem, a bod gweithgareddau o'r fath yn hanfodol ar gyfer creu lleoedd a meithrin ymdeimlad o gymuned.	Y Gymraeg (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae gan Geredigion y drydedd boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 44%, gyda thua 16% ym Mhowys (Cyfrifiad, 2021). O ganlyniad, mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, ac er mwyn amddiffyn a gwella'r iaith rhaid i bolisïau'r CTRh hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg. Budd Polisi Gall gwelliannau i hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus helpu i alluogi siaradwyr Cymraeg presennol, yn ogystal â darpar siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt i fynychu cyfleusterau addysgol cyfrwng Cymraeg, gwasanaethau cyhoeddus trwy'r Gymraeg ac atyniadau twristiaid diwylliannol a gwasanaethau hamdden sy'n hwyluso'r Gymraeg. Mae polisïau megis Acc4 yn arbennig yn ceisio gwella mynediad at ardaloedd hamdden trwy drafnidiaeth gynaliadwy, a fydd yn helpu i hwyluso mynediad at ddigwyddiadau diwylliannol Cymraeg. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd pwysigrwydd cefnogi mynediad at wasanaethau Cymraeg yng Nghanolbarth Cymru, gyda llawer o wasanaethau Cymraeg pwrpasol yng Nghanolbarth Cymru wedi'u lleoli y tu allan i'r ardaloedd trefol mwyaf.

	polisiau hygyrchedd yn ceisio cysylltu cymunedau gwledig. Bydd polisiau hygyrchedd yn ceisio mynd i'r afael â diffyg darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau gwledig yng Nghanolbarth Cymru. Er enghraifft, bydd Polisi Acc5 yn ceisio datblygu a gweithredu gwasanaethau trafnidiaeth ddigidol seiliedig ar alw mewn cymunedau gwledig sy'n ateb anghenion lleol ac sydd wedi'u hintegreiddio a'u cydlynu â'r rhwydwaith bysiau ehangach. Ymgysylltu Roedd adborth o'r ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dangos bod mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn broblem fawr yn rhanbarth Canolbarth Cymru, gyda sawl un yn dweud nad yw'n bosibl cyrraedd llawer o orsafoedd bysiau neu drenau heblaw mewn cerbyd preifat.		
Iechyd (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae ansawdd aer ym Mhowys a Cheredigion yn dda iawn ar y cyfan. Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gweithredol o fewn ffiniau'r naill awdurdod lleol neu'r llall. O ganlyniad, ychydig iawn o fonitro parhaus sydd ar gael yn y naill ardal neu'r llall, ac nid yw un o'r awdurdodau yn gweithredu dulliau monitor awtomatig, gyda monitro cyfyngedig gan diwbiau tryledu yn unig. Er gwaethaf lefelau da o ansawdd aer ar hyn o bryd, teithio mewn car preifat yw'r dull teithio mwyaf cyffredin ar gyfer cymudo yn y rhanbarth, sef rhwng 50% a 60% ym mhob awdurdod lleol (Cyfrifiad 2021). Felly, bydd angen monitro ansawdd yr aer i sicrhau ei fod yn parhau ar lefel iach. Budd Polisi Bydd polisiau hygyrchedd o fudd i newid moddol i'r rhai mewn ardaloedd gwledig lle mae cael mynediad at ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus yn anodd ar hyn o bryd. Mae Polisi Acc1 yn arbennig yn ceisio mynd i'r afael â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus at ddibenion cymudo trwy ddarparu gwasanaethau cyfunol ac ymyriadau mwy arloesol megis cymhellion ar gyfer rhannu ceir yn y gweithle. Mae Acc6 yn ceisio helpu cymunedau lleol trwy adeiladu ar wasanaethau cymunedol presennol megis Dolen Teifi yng Ngheredigion a'r cynlluniau Ceir Cymunedol a Galw a Theithio ym Mhowys. Ymgysylltu Cafodd pwysigrwydd darparu trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yng Nghanolbarth Cymru ei gydnabod mewn gweithdai rhanddeiliaid i gefnogi ansawdd aer a swm gwell yn y rhanbarth.	Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Canolbarth Cymru yn ardal o dirweddau amrywiol, yn gartref i amrywiaeth o goetiroedd, mynyddoedd a thir amaeth. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n cwmpasu 34% o dirfas Cymru (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae tua 10% a 12% o tirfas Ceredigion a Phowys wedi'i orchuddio gan safleoedd gwarchodaeth statudol. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r ardaloedd hyn yn ddigon ar eu pennau eu hunain i atal dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth (fersiwn drafft Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion 2024; Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys, 2022). Budd Polisi Bydd cynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r lleihad dilynol yn y defnydd o gerbydau preifat yn helpu i sicrhau y bydd polisiau hygyrchedd yn helpu i leihau'r galw am deithio mewn cerbydau preifat. O ganlyniad, byddai'r angen am seilwaith ffyrdd newydd yn cael ei leihau, tra byddai agweddau amgylcheddol allweddol eraill fel aer a swm yn cael eu lleihau. Ymgysylltu Codwyd gwarchod yr amgylchedd yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig yr angen i hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy i warchod a gwella cynefinoedd ecosystem tywod yn y rhanbarth.	Arloesedd Trafnidiaeth Gynaliadwy (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Powys a Cheredigion yn gwneud cynnydd tuag at helpu Cymru i gyflawni ei nod Sero Net erbyn 2050. Mae'r rhanbarth yn archwilio ymyriadau arloesol i gefnogi trafnidiaeth gynaliadwy ar ffurf cerbydau allyriadau isel a dyfeisiau gwefru sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae Cynlluniau Ynni Lleol ar gyfer Powys a Cheredigion (2024) yn dangos bod 1% o gerbydau ym mhob awdurdod lleol yn gwbl drydanol ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, Ceredigion sydd â'r nifer uchaf o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef tua 176 (yr uchaf yng Nghymru), tra bod gan Bowys tua 85 o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesur Monitro S10). Budd Polisi Mae polisiau hygyrchedd yn ceisio gwella lefel yr arloesedd yn y system drafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru. Bydd Polisi Acc1 yn ceisio cefnogi rhannu ceir a benthyca beiciau trydan i wella mynediad i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig i leoedd gwaith, hamdden a gwasanaethau. Bydd Polisi Acc5 yn ceisio gweithredu gwasanaethau trafnidiaeth ddigidol seiliedig ar alw mewn cymunedau gwledig sy'n ateb anghenion lleol ac sydd wedi'u hintegreiddio a'u cydlynu â'r rhwydwaith bysiau ehangach. Ymgysylltu Trafodwyd trafnidiaeth ddigidol seiliedig ar alw mewn gweithdai rhanddeiliaid fel enghraifft o ymyrraeth drafnidiaeth arloesol lwyddiannus yng Nghanolbarth Cymru, a'r angen i ymyriadau o'r fath barhau er mwyn cynnig mynediad gwell at wasanaethau ar draws y rhanbarth.	Celfyddydau a Chwaraeon (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn bwysig ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol, cynhwysiant cymdeithasol, cryfhau cysylltiadau cymunedol a datblygu sgiliau bywyd allweddol. Oherwydd natur wledig llawer o aneddiadau yn rhanbarth Canolbarth Cymru, bydd cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn anoddach yn aml oherwydd lleoliad digwyddiadau o'r fath a'u hagosrwydd at y lleoedd lle mae pobl yn byw. Er mwyn atal llesiant meddyliol, unigedd a chysylltiadau cymunedol rhag dirywio, mae'n bwysig bod ymyriadau trafnidiaeth yn amddiffyn cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon yng Nghanolbarth Cymru. Budd Polisi Drwy welliannau i fynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, mae polisiau hygyrchedd yn gwella cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, chwaraeon a diwyllianol. Yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Nghanolbarth Cymru, mae gallu cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon ar ôl teithio ar fws neu drên yn anodd ar hyn o bryd oherwydd rhwystrau ffisegol a systemig. Er bod pob polisi yn helpu i wella mynediad trigolion Canolbarth Cymru i gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon, mae Polisi Acc6 sy'n ceisio gwelliannau yn y ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, a Pholisi Acc4 sy'n ceisio gwella mynediad trafnidiaeth gyhoeddus at weithgareddau hamdden, yn enghreifftiau o bolisiau sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ac yn gadarnhaol ar fynediad at weithgareddau celfyddydol a chwaraeon. Ymgysylltu Codwyd yr angen i ddod â digwyddiadau hamdden yn agosach at adref yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Codwyd y ffaith na ellir defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn aml i gyrraedd gweithgareddau hamdden gyda'r nos.
Diogelwch a hyder (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae signal ffôn symudol yng Nghanolbarth Cymru ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill Cymru. Dim ond 9.5% o gartrefi yng Nghanolbarth Cymru sydd â mynediad at 4G, a dim ond tua hanner y cartrefi sydd â gwasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr. I'w roi yn ei gyd-destun, mae gan 73% o gartrefi yng ngweddill Cymru wasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae signal 4G yn	Lleihau Gwastraff (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru yn nodi fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae lleihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn chwarae rôl allweddol yn hyn, yn enwedig yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae nod cyffredinol y targed hwn yn cyd-fynd yn agos â thargedau Sero Net y genedl, sef lleihau faint o wastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth erbyn 2050. Budd Polisi Drwy gynyddu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r lleihad dilynol yn yr angen	Dosbarthu Nwyddau mewn Modd Cynaliadwy (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Strategaeth Cludo Nwyddau y Gororau a Chanolbarth Cymru (2021) yn amlinellu'r nod o leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi rhagweld twf o 40% mewn cludo nwyddau mewn cerbydau nwyddau trwm rhwng 2010 a 2040, gan bwysleisio pwysigrwydd annog y defnydd o danwydd allyriadau isel ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Budd Polisi Mae Polisi Acc1 yn cefnogi gwella mynediad at wasanaethau allweddol a chyfflogaeth trwy drafnidiaeth gynaliadwy a sicrhau bod hygyrchedd wedi'i gynllunio fel rhan o ddarparu	Amgylchedd Hanesyddol (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Gellir dod o hyd i lawer o atyniadau twristiaid Canolbarth Cymru mewn lleoliadau gwledig, ac maent yn safleoedd hanesyddol yn aml. Yn 2019 cynhaliwyd Arolwg Ymweliadau Dyddiol Prydain Fawr (2019) gan nodi bod y gyfran fwyaf o fathau o deithiau i Ganolbarth Cymru wedi'u gwneud i bentrefi/cefn gwlad (44%). Yn 2019 Powys oedd y trydydd awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef fwyaf ar ôl Caerdydd ac Abertawe gyda 6.9 miliwn o ymweliadau. Wedi'i gofnodi yn yr un arolwg, Ceredigion oedd yr ail ardal fwyaf arwyddocaol yng

	hanfodol ar gyfer diogelwch a hyder defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu taith, newid eu cynlluniau teithio, paratoi ar gyfer diffygion trafnidiaeth gyhoeddus a phrynu tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus ar-lein. Er gwaethaf gwelliannau arfaethedig i'r rhwydwaith 4G yng Nghanolbarth Cymru trwy'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ni fydd llawer o rannau o Ganolbarth Cymru yn elwa o signal 4G o hyd. Mae'r rhwystr systemig hwn yng Nghanolbarth Cymru yn rhwystro pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn effeithio ar deimladau o ddiogelwch a hyder mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Budd Polisi Bydd gwelliannau i hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yn helpu i wella hyder a diogelwch yn y system. Ar hyn o bryd, mae amlder, dibynadwyedd ac argaeledd cyffredinol gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Canolbarth Cymru yn anghyson ac o ganlyniad gellid gwella hyder yn y system. Mae polisïau hygyrchedd fel grŵp i gyd yn ceisio gwella mynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a fydd yn galluogi defnyddwyr i deimlo'n hyderus ac yn ddiogel wrth ddefnyddio gwasanaethau i deithio i ble bynnag y maen nhw am fynd. Ymgysylltu Nodwyd mewn gweithdai rhanddeiliaid bod diffyg mynediad at wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus ar-lein a diffyg mynediad ffisegol at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystrau i ddefnyddio bysiau a threnau, gan effeithio o ganlyniad ar deimladau o ddiogelwch a hyder yn y gwasanaethau a gynigir yn y rhanbarth.	am gar, mae llai o bwysau'n cael ei roi ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Bydd lleihad yn y defnydd o'r rhwydwaith priffyrdd gan gerbydau preifat yn lleihau'n naturiol faint o waith cynnal a chadw sydd ei angen ac yn gwneud defnydd gwell o'r seilwaith presennol, gan leihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Ymgysylltu Roedd rhanddeiliaid wedi cydnabod bod gwella mynediad at wasanaethau allweddol trwy drafnidiaeth gyhoeddus yn ffordd o leihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, yn enwedig potensial y polisïau hyn i gynyddu'r defnydd o ddulliau cyhoeddus a lleihau'r angen i deithio mewn cerbydau preifat.	gwasanaethau. Byddai'r polisi hwn yn cefnogi darparu benthyciadau e-feiciau, a allai chwarae rhan wrth leihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau, gan gymryd ysbrydoliaeth o'r cynllun E-Symud a ariennir gan LIC, lle mae busnesau'n cael eu cefnogi i ddosbarthu eu nwyddau a'u gwasanaethau mewn modd cynaliadwy. Ymgysylltu Cydnabuwyd yn ystod sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid fod potensial i ddosbarthu'n lleol gan ddefnyddio beiciau cargo trydan, gan gymryd ysbrydoliaeth o'r cynllun E-Symud a ariennir gan LIC yng Nghymru.	Nghymru o ran gwariant ar ôl Caerdydd, gyda £329 miliwn wedi'i wario ar ymweliadau dydd twristiaid. Budd Polisi Bydd polisïau hygyrchedd yn helpu i roi mynediad i bobl at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, y gellir eu defnyddio wedyn i gael mynediad at elfennau o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghanolbarth Cymru. Yn ogystal, bydd cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn helpu i leihau tagfeydd ar y ffyrdd a fydd yn helpu i ddiogelu natur amgylcheddau hanesyddol. Ymgysylltu O ganlyniad, mae'r ddau awdurdod lleol yn gartref i amgylcheddau hanesyddol sy'n cael llawer o ymwelwyr. Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd bod y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd twristiaid ar draws y ddau awdurdod lleol yn gyfyngedig, gan arwain yn aml at dagfeydd mewn atyniadau twristiaid ar draul yr amgylchedd adeiledig.
Grŵp Polisïau Newid Ymddygiad	+ ++ +	++ + 0	+ 0 + 0	0 0 +
	Cydraddoldeb (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae tuag 1% o'r boblogaeth yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 800m i orsaf drenau, tra bod y ffigur ar draws Cymru gyfan yn 13%. Mae ychydig dros 25% o bobl yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 400m i safle bws, o'i gymharu â 70% yng Nghymru gyfan (<i>Llwybr Newydd: Data a thuaddiadau trafnidiaeth, 2020; Mesur Allweddol S3 - TrC</i>). Mae diffyg cysylltedd cynaliadwy â thrafnidiaeth gyhoeddus yn tynnu sylw at rwystr ffisegol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, gan atal pobl, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, rhag cael mynediad at wasanaethau allweddol sy'n hanfodol i fywyd bob dydd. Budd Polisi Mae polisïau newid ymddygiad yn ceisio gweithredu mentrau a chyflwyno gweithgareddau addysgol i ddylanwadu ar ymddygiad teithio pobl. Bydd mentrau a gweithgareddau addysgol yn hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy i leihau'r defnydd o gerbydau preifat yn y rhanbarth. Byddai polisïau newid ymddygiad yn helpu i wella cydraddoldeb mynediad pobl yng Nghanolbarth Cymru at drafnidiaeth gyhoeddus. Eu nod yw rhoi'r gallu i bobl wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch sut i deithio'n fwy llesol neu gynaliadwy yn eu bywydau bob dydd. Mae Polisi Beh4, er enghraifft, yn ceisio hyrwyddo cynllunio teithio sefydliadol a	Lleihau Allyriadau Carbon a Newid Moddol (++) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r car yw'r dull teithio mwyaf cyffredin yng Nghanolbarth Cymru ac yn cyfrif am dros 50% o deithiau cymudo ym Mhowys a Cheredigion. Mae perchnogaeth ceir yng Nghanolbarth Cymru yn uwch nag yng ngweddill Cymru, gyda 15% ac 13% o gartrefi ym Mhowys a Cheredigion yn berchen ar 3 neu ragor o gerbydau, o'i gymharu â 10% ar draws Cymru gyfan. Budd Polisi Mae polisïau newid ymddygiad yn ceisio gweithredu mentrau a chyflwyno gweithgareddau addysgol i ddylanwadu ar ymddygiad teithio pobl. Bydd mentrau a gweithgareddau addysgol yn hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy er mwyn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat yn y rhanbarth. Bydd polisïau newid ymddygiad yn helpu i gyflawni targedau cenedlaethol a rhanbarthol o gyflawni Sero Net erbyn 2050, a thargedau lleihau rhanbarthol o 54%. Bydd Polisi Beh4 yn benodol yn helpu i leihau allyriadau carbon ac yn annog newid moddol trwy dargedu'r cymudo sy'n gysylltiedig â chyflogwyr allweddol. Bydd Polisi Beh4 yn annog ymgysylltiad â chyflogwyr allweddol i gefnogi teithiau milltir olaf cynaliadwy; hyrwyddo rhannu ceir yn y gweithle; hyrwyddo cynllunio teithio personol; cefnogi cynlluniau aberthu cyflog ar gyfer prynu cerbydau a beiciau trydan a helpu i lansio a hyrwyddo Siarter Teithio Iach Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n ymrwymo sefydliadau i gefnogi mentrau teithio cynaliadwy. Ymgysylltu Roedd barn rhanddeiliaid wedi cadarnhau bod angen newid moddol er	Creu Lleodedd (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio creu lleodedd fel 'dull cyfannol o gynllunio a dylunio manau...', lle mae'r nod yw creu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, hapusrwydd, iechyd a llesiant (<i>Creu Lleodedd Cymru, 2020</i>). Mae polisïau newid ymddygiad yn ceisio gweithredu mentrau a chyflwyno gweithgareddau addysgol i ddylanwadu ar ymddygiad teithio pobl. Bydd mentrau a gweithgareddau addysgol yn hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy er mwyn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat yn y rhanbarth. Budd Polisi Bydd polisïau newid ymddygiad yn annog defnyddio dulliau cynaliadwy, yn enwedig cerdded a beicio mewn ardaloedd gwledig a threfol ar draws y sir. Yn rhannau gwledig Canolbarth Cymru gall y rhwydwaith teithio llesol fod yn llai dwys, gan roi llai o gyfle i bobl gerdded, beicio neu olwyno ar seilwaith teithio llesol pwrpasol. Bydd polisïau newid ymddygiad yn darparu rhaglenni ysgogi ac addysgu. Gallai'r cynnydd posibl mewn cerdded a beicio mewn ardaloedd gwledig o ganlyniad i bolisïau newid ymddygiad gynorthwyo i gyflwyno teithio ar droed neu ar feic fel dull trafnidiaeth ymarferol ar gyfer teithiau bob dydd. Mae polisïau megis Beh5 yn ceisio ymchwilio i'r potensial ar gyfer prosiect peilot newid ymddygiad yn y rhanbarth, gan gymryd ysbrydoliaeth o bosibl o'r prosiect Momentwm yng Nghasnewydd lle mae hyfforddiant beicio, sesiynau cynnal a chadw beiciau, ymgysylltu â chyflogwyr a storio beiciau yn cael eu darparu yn y gymuned. Gall polisïau fel yr un yma helpu i ategu nod Llwybr Newydd i wella'r ffordd y cymhwysir egwyddorion creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig a threfol. Ymgysylltu Roedd ateb anghenion penodol cymunedau gwledig yng Nghanolbarth Cymru yn thema graidd mewn sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda nifer o randdeiliaid yn nodi	Y Gymraeg (0) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae gan Geredigion y drydedd boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 44%, gyda thua 16% ym Mhowys (Cyfrifiad, 2021). O ganlyniad, mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, ac er mwyn amddiffyn a gwella'r iaith rhaid i bolisïau'r CTRh hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg. Budd Polisi Mae polisïau newid ymddygiad yn ceisio gweithredu mentrau a chyflwyno gweithgareddau addysgol i ddylanwadu ar ymddygiad teithio pobl. Bydd mentrau a gweithgareddau addysgol yn hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy er mwyn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat yn y rhanbarth. Ni ragwelir y bydd polisïau newid ymddygiad yn dod â buddion penodol i'r Gymraeg yn uniongyrchol. Ymgysylltu Ni thrafodwyd mentrau newid ymddygiad a'u potensial i wella mynediad at wasanaethau Cymraeg yn ystod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cydnabuwyd bod gwella mynediad at y Gymraeg i'w gyflawni ar raddfa llawer ehangach.

	datblygu mentrau newid ymddygiad sy'n cysylltu â'r prif gyflogwyr, e.e. annog gwneud 10 munud olaf y daith yn un llesol; hybu cynlluniau rhannu ceir yn y gweithle; cynlluniau teithiau personol; cynlluniau aberthu cyflog ar gyfer prynu cerbydau a beiciau trydan; lansio a hyrwyddo Siarter Teithio lach Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n ymrwymo sefydliadau i gefnogi mentrau teithio cynaliadwy. Ymgysylltu Mewn sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd bod mynediad at ddulliau teithio cyhoeddus yn broblem yng Nghanolbarth Cymru, gyda thrigolion yn aml yn gorfod teithio mewn car i gael mynediad at wasanaethau bysiau neu drenau. Roedd cydnabyddiaeth hefyd y gallai'r defnydd o ddulliau teithio cyhoeddus a llesol o ganlyniad i ddarpariaeth wael fod yn rhannol oherwydd agwedd, a bod yr hyder y bydd dulliau teithio cynaliadwy yn ateb eu hanghenion yn isel ar hyn o bryd.	mwyn helpu i gyfrannu at dargedau Sero Net cenedlaethol a rhanbarthol. Yn gysylltiedig â'r pwnc hwn oedd yr angen am ddewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy gwell i hwyluso newid dulliau o'r cerbyd preifat.	bod mynediad at weithgareddau hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus yn broblem a bod gweithgareddau o'r fath yn hanfodol ar gyfer creu lleoedd a meithrin ymdeimlad o gymuned.	
	Iechyd (++) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae ansawdd aer ym Mhowys a Cheredigion yn dda iawn ar y cyfan. Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gweithredol o fewn ffiniau'r naill awdurdod lleol neu'r llall. O ganlyniad, ychydig iawn o fonitro parhaus sydd ar gael yn y naill ardal neu'r llall, ac nid yw un o'r awdurdodau yn gweithredu dulliau monitor awtomatig, gyda monitro cyfyngedig gan diwbiau tryledu yn unig. Er gwaethaf lefelau isel o risg ansawdd aer ar draws y ddau awdurdod lleol, fel Cymru gyfan, teithio mewn car preifat yw'r dull teithio mwyaf cyffredin ar gyfer cymudo yn y rhanbarth, sef rhwng 50% a 60% ym mhob awdurdod lleol (Cyfrifiad 2021). Budd Polisi Mae polisiâu newid ymddygiad yn ceisio gweithredu mentrau a chyflwyno weithgareddau addysgol i ddylanwadu ar ymddygiad teithio pobl. Bydd mentrau a gweithgareddau addysgol yn hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy er mwyn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat yn y rhanbarth. Mae Polisi Beh2 yn enghraifft o bolisi sy'n ceisio datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth trwy godi ymwybyddiaeth o ddulliau teithio llesol a chynaliadwy yn benodol i'r rhai mewn rhanbarthau gwledig a fyddai fel arall yn defnyddio eu car ar gyfer teithiau bob dydd. At ei gilydd, nid yw polisiâu'r CTRh yn debygol o effeithio'n negyddol ar gydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer ac ychydig iawn o risg sydd o fynd uwchlaw'r safonau ansawdd aer drwy weithredu'r polisiâu hyn. Ymgysylltu Codwyd pwysigrwydd datgarboneiddio'r ffordd y mae pobl yn teithio, ond hefyd negyddu'r angen i deithio o gwbl i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid. Trafodwyd y newid i ULEV a darparu'r seilwaith angenrheidiol er mwyn i gerbydau o'r fath ffynnu, ochr yn ochr â mesurau meddalach wedi'u targedu ar weithleoedd a chyfleusterau addysgol i ddylanwadu ar newid ymddygiad o deithio yn y car i ddulliau teithio gwyrddach.	Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Canolbarth Cymru yn ardal o dirweddau amrywiol, yn gartref i amrywiaeth o goetiroedd, mynyddoedd a thir amaeth. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n cwmpasu 34% o dirfas Cymru (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae tua 10% a 12% o dirfas Ceredigion a Phowys wedi'i orchuddio gan safleoedd gwarchodaeth statudol, a chydabyddir nad yw'r ardaloedd hyn yn ddigon ar eu pennau eu hunain i atal dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth (fersiwn drafft Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion 2024; Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys, 2022). Budd Polisi Mae polisiâu newid ymddygiad yn canolbwyntio ar ddarparu cymhellion i newid i ddulliau teithio llesol a chynaliadwy, ac addysg ynghylch sut a pham y gall dulliau teithio llesol a chynaliadwy ateb anghenion bob dydd pobl. O ganlyniad, mae polisiâu newid ymddygiad a'u buddion arfaethedig wedi'u llunio i warchod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan hyrwyddo cynlluniau sy'n atal gweithredu ymyriadau trafnidiaeth sy'n peryglu'r rhain. Ymgysylltu Codwyd gwarchod yr amgylchedd yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig yr angen i hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy i warchod a gwella cynefinoedd ecosystem tywod yn y rhanbarth.	Arloesedd Trafnidiaeth Gynaliadwy (0) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Powys a Cheredigion yn gwneud cynnydd tuag at helpu Cymru i gyflawni ei nod Sero Net erbyn 2050. Mae'r rhanbarth yn archwilio ymyriadau arloesol i gefnogi trafnidiaeth gynaliadwy ar ffurf cerbydau allyriadau isel a dyfeisiau gwefru sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae Cynlluniau Ynni Lleol ar gyfer Powys a Cheredigion (2024) yn dangos bod 1% o gerbydau ym mhob awdurdod lleol yn gwbl drydanol ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, Ceredigion sydd â'r nifer uchaf o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef tua 176 (yr uchaf yng Nghymru), tra bod gan Bowys tua 85 o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesur Monitro S10). Budd Polisi Mae polisiâu newid ymddygiad yn canolbwyntio ar ddarparu cymhellion i newid i ddulliau teithio llesol a chynaliadwy, ac addysg ynghylch sut a pham y gall dulliau teithio llesol a chynaliadwy ateb anghenion bob dydd pobl. Ni ragwelir y bydd polisiâu newid ymddygiad yn cyflwyno unrhyw dechnoleg arloesol benodol i'r system drafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru, a bydd y polisiâu hyn yn gweithredu fel sbardun i bobl newid i ddulliau teithio cynaliadwy. Ymgysylltu Yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd y gellid cyflwyno technegau arloesol i ysgogi pobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy.	Celfyddydau a Chwaraeon (0) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn bwysig ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol, cynhwysiant cymdeithasol, cryfhau cysylltiadau cymunedol a datblygu sgiliau bywyd allweddol. Oherwydd natur wledig llawer o aneddiadau yn rhanbarth Canolbarth Cymru, bydd cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn anoddach yn aml oherwydd lleoliad digwyddiadau o'r fath a'u hagosrwydd at y lleoedd lle mae pobl yn byw. Er mwyn atal llesiant meddyliol, unigedd a chysylltiadau cymunedol rhag dirywio, mae'n bwysig bod ymyriadau trafnidiaeth yn amddiffyn cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon yng Nghanolbarth Cymru. Budd Polisi Er bod polisiâu newid ymddygiad yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau llesol a chynaliadwy trwy ddarparu cymhellion a rhaglenni addysgol, ni ragwelir y bydd polisiâu newid ymddygiad yn gwella mynediad at ddigwyddiadau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol yn uniongyrchol. Ymgysylltu Ni thrafodwyd newid ymddygiad a mynediad at weithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid.
	Diogelwch a hyder (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae signal ffôn symudol yng Nghanolbarth Cymru ar ei hól hi o'i gymharu â gweddill Cymru. Dim ond 9.5% o gartrefi yng	Lleihau Gwastraff (0) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid <i>Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru yn nodi fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae lleihau'r</i>	Dosbarthu Nwyddau mewn Modd Cynaliadwy (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Strategaeth Cludo Nwyddau y Gororau a Chanolbarth Cymru (2021) yn amlinellu'r nod o leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau yng Nghanolbarth	Amgylchedd Hanesyddol (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Gellir dod o hyd i lawer o atyniadau twristiaid Canolbarth Cymru mewn lleoliadau gwledig, ac maent yn safleoedd hanesyddol yn aml. Yn

	Nghanolbarth Cymru sydd â mynediad at 4G, a dim ond tua hanner y cartrefi sydd â gwasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr. I'w roi yn ei gyd-destun, mae gan 73% o gartrefi yng ngweddill Cymru wasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae signal 4G yn hanfodol ar gyfer diogelwch a hyder defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu taith, newid eu cynlluniau teithio, paratoi ar gyfer diffygion trafnidiaeth gyhoeddus a phrynu tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus ar-lein. Er gwaethaf gwelliannau arfaethedig i'r rhwydwaith 4G yng Nghanolbarth Cymru trwy'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ni fydd llawer o rannau o Ganolbarth Cymru yn elwa o signal 4G o hyd. Mae'r rhwystr systemig hwn yng Nghanolbarth Cymru yn rhwystro pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn effeithio ar deimladau o ddiogelwch a hyder mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Buddion Polisi Mae polisiâu newid ymddygiad yn ceisio gweithredu mentrau a chyflwyno gweithgareddau addysgol i ddylanwadu ar ymddygiad teithio pobl. Bydd mentrau a gweithgareddau addysgol yn hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy er mwyn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat yn y rhanbarth. Ymgysylltu Roedd y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith bod diogelwch a hyder yn y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yng Nghanolbarth Cymru yn isel. Bydd polisiâu newid ymddygiad yn ceisio darparu cymhellion ac addysg bellach ar ddulliau cynaliadwy a llesol er mwyn helpu i gynyddu lefelau hyder a theimladau o ddiogelwch yn y rhwydwaith trafnidiaeth llesol a chynaliadwy.	<i>gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn chwarae rôl allweddol yn hyn, yn enwedig yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae nod cyffredinol y targed hwn yn cyd-fynd yn agos â thargedau Sero Net y genedl, sef lleihau faint o wastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth erbyn 2050.</i> Budd Polisi <i>Mae polisiâu newid ymddygiad yn ceisio gweithredu mentrau a chyflwyno gweithgareddau addysgol i ddylanwadu ar ymddygiad teithio pobl. Bydd mentrau a gweithgareddau addysgol yn hyrwyddo dulliau teithio llesol a chynaliadwy er mwyn lleihau'r defnydd o gerbydau preifat yn y rhanbarth. Drwy gynyddu cerdded a beicio a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, a'r lleihad dilynol yn yr angen am gar, mae llai o bwysau'n cael eu rhoi ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Bydd lleihad yn y defnydd o'r rhwydwaith priffyrdd gan gerbydau preifat yn lleihau'n naturiol faint o waith cynnal a chadw sydd ei angen ar gyfer ei gynnal. O ganlyniad, mae'n cynnig cyfle i fod yn fwy dyfeisgar a lleihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ffyrdd, a gwneud defnydd gwell o'r seilwaith presennol, gan ddefnyddio dulliau llesol a chynaliadwy.</i> Ymgysylltu <i>Nododd rhanddeiliaid fod gan gymhellion teithio llesol a chynaliadwy rôl i'w chwarae wrth leihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, ac y gallai teithio llesol neu ddefnyddio dulliau cyhoeddus wneud defnydd gwell o'r seilwaith trafnidiaeth presennol.</i>	Cymru. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi rhagweld twf o 40% mewn cludo nwyddau mewn cerbydau nwyddau trwm rhwng 2010 a 2040, gan bwysleisio pwysigrwydd annog y defnydd o danwydd allyriadau isel ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Budd Polisi Mae polisiâu newid ymddygiad wedi'u canolbwyntio ar ddarparu cymhellion i newid i ddulliau teithio llesol a chynaliadwy, ac addysg ynghylch sut a pham y gall dulliau teithio llesol a chynaliadwy ateb anghenion bob dydd pobl. Mae gan bolisiâu newid ymddygiad y potensial i gael effaith gadarnhaol ar sut mae nwyddau'n cael eu dosbarthu yn y rhanbarth, gan ddarparu'r adnoddau a'r addysg y mae eu hangen ar fusnesau i ddosbarthu eu nwyddau mewn modd cynaliadwy. Mae prosiect E-Symud Sustrans yn enghraifft o fenter newid ymddygiad sy'n cynnig beiciau cargo i berchnogion busnesau ddosbarthu eu nwyddau. Mae prosiectau fel E-Symud yn dangos sut y gall polisiâu newid ymddygiad CTRh helpu i ddatgarboneiddio sut mae busnesau a sefydliadau'n dosbarthu eu nwyddau. Ymgysylltu Cydnabuwyd yn ystod sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid fod potensial i ddosbarthu'n lleol gan ddefnyddio beiciau cargo trydan, gan gymryd ysbrydoliaeth o'r cynllun E-Symud a ariennir gan LIC yng Nghymru.	2019, cynhaliwyd Arolwg Ymweliadau Dyddiol Prydain Fawr (2019), gan nodi bod y gyfran fwyaf o fathau o deithiau i Ganolbarth Cymru wedi cael eu gwneud i bentrefi/cefn gwlad (44%). Yn 2019, y trydydd awdurdod lleol a ymwelwyd ag ef fwyaf ar ôl Caerdydd ac Abertawe oedd Powys gyda 6.9 miliwn o ymweliadau. Wedi'i gofnodi yn yr un arolwg, Ceredigion oedd yr ail ardal fwyaf arwyddocaol yng Nghymru o ran gwariant ar ôl Caerdydd, gyda £329 miliwn wedi'i wario ar ymweliadau dydd twristiaid. O ganlyniad, mae'r ddau awdurdod lleol yn gartref i amgylcheddau hanesyddol sy'n cael llawer o ymwelwyr. Budd Polisi Bydd polisiâu newid ymddygiad yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio llesol a chynaliadwy, yn hytrach na cherbydau preifat. Bydd lleihau'r defnydd o gerbydau yn helpu i atal tagfeydd ffyrdd a fydd yn helpu i ddiogelu natur amgylcheddau hanesyddol. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd bod y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd twristiaid ar draws y ddau awdurdod lleol yn gyfyngedig, gan arwain yn aml at dagfeydd mewn atyniadau twristiaid oherwydd yr angen i yrru.
Grŵp Polisiâu Cysylltedd Strategol	+ ++ ++ Cydraddoldeb (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae tuag 1% o'r boblogaeth yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 800m i orsaf drenau, tra bod y ffigur ar draws Cymru gyfan yn 13%. Mae ychydig dros 25% o bobl yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 400m i safle bws, o'i gymharu â 70% yng Nghymru gyfan (<i>Llwybr Newydd: Data a thuaddiadau trafnidiaeth, 2020; Mesur Allweddol S3 - TrC</i>). Mae diffyg cysylltedd cynaliadwy â thrafnidiaeth gyhoeddus yn tynnu sylw at rwystr ffisegol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, gan atal pobl, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, rhag cael mynediad at wasanaethau allweddol sy'n hanfodol i fywyd bob dydd. Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gryfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amlder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. Nod polisiâu fel Conn1 a Conn4 yw gwella perfformiad gwasanaethau trenau a bysiau yn y rhanbarth, a fydd yn helpu pob defnyddiwr i gael mynediad cyfartal	++ ++ ++ Lleihau Allyriadau Carbon a Newid Moddol (++) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r car yw'r dull teithio mwyaf cyffredin yng Nghanolbarth Cymru ac yn cyfrif am dros 50% o deithiau cymudo ym Mhowys a Cheredigion. Mae perchnogaeth ceir yng Nghanolbarth Cymru yn uwch nag yng ngweddill Cymru, gyda 15% ac 13% o gartrefi ym Mhowys a Cheredigion yn berchen ar 3 neu ragor o gerbydau, o'i gymharu â 10% ar draws Cymru gyfan. Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gryfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amlder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. Bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i gyrraedd targedau cenedlaethol a rhanbarthol o gyflawni Sero Net erbyn 2050 a thargedau lleihau rhanbarthol o 54%. Bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i leihau carbon a dylanwadu ar newid moddol ar draws nifer o ddulliau teithio a dibenion. Mae Polisiâu Conn1 a Conn5, er enghraifft, yn ceisio gwella profiad trafnidiaeth teithwyr, gan ddarparu gwasanaeth a chysylltedd o ansawdd gwell i roi cymhellion ar gyfer newid moddol i ddulliau teithio gwyrddach. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn ceisio gwella gweithrediadau cludo nwyddau yng	+ + ++ + Creu Lleodedd (+) Heriau Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio creu lleodedd fel 'dull cyfannol o gynllunio a dylunio mannau...', lle mae'r nod yw creu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, hapusrwydd, iechyd a llesiant (<i>Creu Lleodedd Cymru, 2020</i>). Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gryfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amlder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. Bydd gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus yn helpu pobl i symud ar draws y rhanbarth gan leihau'r angen am gerbyd preifat ar gyfer defnydd bob dydd. O ganlyniad, bydd mynediad pobl at gyfleusterau allweddol yn y rhanbarth yn cael ei wella, gan alluogi pobl i deithio o anheddiad i anheddiad, a chryfhau cysylltiadau cymunedol. O ganlyniad, rhagwelir y bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu pobl i gael mynediad at ganolfannau allweddol ar gyfer cyflogaeth a hamdden, a fydd yn galluogi canolfannau lleol, o fewn trefi allweddol a chanolfannau gwledig llai, i ffynnu o ganlyniad i fwy o ymwelwyr. Mae polisiâu fel Conn1 yn hwyluso mwy o symudiad o bobl trwy drafnidiaeth gyhoeddus, lle bydd gwelliannau i wasanaethau trenau megis amlder, ansawdd, dibynadwyedd, cysurwch a fforddiadwyedd gwasanaethau trenau gwell yn cael eu harchwilio. Ymhellach, mae polisiâu megis Conn4 yn ceisio gwella gwasanaethau bysiau i ategu'r gwelliannau a wnaed i'r rhwydwaith trenau, tra bod polisiâu fel Conn5 yn ceisio cefnogi teithio ar fysiau a threnau trwy hwyluso a	+ + ++ + Y Gymraeg (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae gan Geredigion y drydedd boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg sef 44%, ac mae gan Bowys tua 16%. O ganlyniad, mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, ac er mwyn amddiffyn a gwella'r iaith rhaid i bolisiâu'r CTRh hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg. Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gryfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amlder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. Gall gwelliannau mewn cysylltedd a pherfformiad trafnidiaeth gyhoeddus helpu i alluogi siaradwyr Cymraeg presennol, yn ogystal â darpar siaradwyr Cymraeg, i gael mynediad at wasanaethau sydd eu hangen i fynychu cyfleusterau addysgol cyfrwng Cymraeg, gwasanaethau cyhoeddus trwy'r Gymraeg ac atyniadau twristiaid diwylliannol a gwasanaethau hamdden sy'n hwyluso'r Gymraeg. Mae Polisi Conn1 a Conn4, er enghraifft, yn ceisio cynyddu cydweithio â TrC i wella amlder, ansawdd,

	at drafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth. Nod Conn5 yw cefnogi gwelliannau i rwydwaith ffyrdd y sir a fydd yn gwella ac yn darparu cysylltedd strategol gwell ar gyfer ardaloedd gwledig. Ymgysylltu Nododd rhanddeiliaid bwysigrwydd diogelu a gwella'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn parhau i gryfhau cysylltedd dulliau teithio cynaliadwy. Nodwyd y posibilrwydd y gellid gwella cysylltedd moddol yn y rhanbarth er mwyn gwella mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy yn y rhanbarth.	Nghanolbarth Cymru, gan leihau nifer y cerbydau a'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau ar y rhwydwaith priffyrdd. Mae Conn10 yn enghraifft benodol o hyn, lle bydd y polisi'n ceisio gweithio gyda phartneriaid i wella cynaliadwyedd a hyfywedd gwasanaethau cludo nwyddau parseli bach a dosbarthu milltir olaf ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio a chyfuno. Ymgysylltu Roedd barn rhanddeiliaid wedi cadarnhau bod angen newid moddol er mwyn helpu i gyfrannu at dargedau Sero Net cenedlaethol a rhanbarthol. Yn gysylltiedig â'r pwnc hwn oedd yr angen am ddewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy gwell i hwyluso newid dulliau o'r cerbyd preifat. At hynny, roedd ymyriadau cludo nwyddau yn cael eu hystyried yn faes twf posibl o ran cyrraedd targedau amgylcheddol a newid moddol.	newid yn rhwydd o un dull i'r llall. Mae polisiâu fel y rhain i gyd yn ceisio hwyluso symudiad pobl ar draws y rhanbarth gan ddileu'r angen i ddefnyddio cerbydau preifat bob dydd. Rhagwelir y bydd polisiâu fel y rhain yn cyfrannu at sicrhau bod mannau cyhoeddus yn ffynnu, er mwyn amddiffyn a gwella llesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghanolbarth Cymru. Ymgysylltu Roedd ateb anghenion penodol cymunedau gwledig yng Nghanolbarth Cymru yn thema graidd yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda sawl rhanddeiliad yn nodi bod mynediad at weithgareddau hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus yn broblem, a bod gweithgareddau o'r fath yn hanfodol ar gyfer creu lleoedd a meithrin ymdeimlad o gymuned.	dibynadwyedd, cysurwch a fforddiadwyedd gwasanaethau trenau a fyddai, yn ei dro, yn rhoi gwell mynediad i bobl yng Nghanolbarth Cymru at gyfleusterau Cymraeg. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd gwelliannau i berfformiad trafnidiaeth gyhoeddus, gan bwysleisio bod gwelliannau i amlder gwasanaethau yng Nghanolbarth Cymru yn faes twf. Nodwyd gwelliannau i amlder fel ffactor allweddol wrth gynyddu'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus, gan wella'r mynediad a'r hyblygrwydd sydd gan bobl yng Nghanolbarth Cymru er mwyn cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau Cymraeg.
	Iechyd (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae ansawdd aer ym Mhowys a Cheredigion yn dda iawn ar y cyfan. Nid oes unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gweithredol o fewn ffiniau'r naill awdurdod lleol neu'r llall. O ganlyniad, ychydig iawn o fonitro parhaus sydd ar gael yn y naill ardal neu'r llall, ac nid yw un o'r awdurdodau yn gweithredu dulliau monitor awtomatig, gyda monitro cyfyngedig gan diwbiau tryledu yn unig. Er gwaethaf lefelau isel o risg ansawdd aer ar draws y ddau awdurdod lleol, fel Cymru gyfan, teithio mewn car preifat yw'r dull teithio mwyaf cyffredin ar gyfer cymudo yn y rhanbarth, sef rhwng 50% a 60% ym mhob awdurdod lleol (Cyfrifiad 2021). Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gyfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amlder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. Mae polisiâu megis Conn11 yn perfformio'n dda yn erbyn targedau iechyd, lle bydd y polisi'n ceisio gwella cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy ag asedau diwylliannol, hamdden a thwristiaeth allweddol yn y rhanbarth. Byddai'r polisi'n ceisio lleihau nifer y teithiau a wneir mewn car er mwyn gwella ansawdd aer a sŵn. Ar raddfa ehangach, bydd Conn8 yn helpu i wella ansawdd aer a sŵn yn y rhanbarth trwy geisio cefnogi TrC a NWR i ymchwilio i gyfleoedd cludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Byddai'r polisi hwn yn hwyluso astudiaeth ddichonoldeb sy'n nodi'r cyfleoedd i symud i gludo nwyddau ar y rheilffyrdd a dylanwadu ar newid moddol i ddulliau gwyrddach. Ymgysylltu Cafodd cysylltedd moddol ei nodi yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac roedd llawer o randdeiliaid wedi cydnabod y rôl y mae cysylltedd moddol yn ei chwarae o ran gwelliannau i sŵn ac ansawdd aer. Yn ogystal, cafodd cyfleoedd cludo nwyddau eu hystyried gan randdeiliaid, gan gydnabod y gallai ystyriaethau i ddiwygio dulliau cludo nwyddau yng Nghanolbarth Cymru gyfrannu ymhellach at ostyngiadau mewn llygredd aer a sŵn.	Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Canolbarth Cymru yn ardal o dirweddau amrywiol, yn gartref i amrywiaeth o goetiroedd, mynyddoedd a thir amaeth. Mae'r rhanbarth hefyd yn gartref i Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n cwmpasu 34% o dirfas Cymru (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae tua 10% a 12% o dirfas Ceredigion a Phowys wedi'i orchuddio gan safleoedd gwarchodaeth statudol, a chydabyddir nad yw'r ardaloedd hyn yn ddigon ar eu pennau eu hunain i atal dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth (fersiwn drafft Cynllun Gweithredu Adfer Natur Ceredigion 2024; Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys, 2022). Budd Polisi Bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i leihau nifer y cerbydau ar y rhwydwaith priffyrdd yng Nghanolbarth Cymru, gan felly leihau'r galw ar gyfer defnyddio cerbydau preifat at ddibenion teithwyr a nwyddau. O ganlyniad, bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i warchod bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan hyrwyddo cynlluniau sy'n atal gweithredu ymyriadau trafnidiaeth sy'n eu peryglu. Mae polisiâu cysylltedd strategol yn ceisio gwneud defnydd gwell o seilwaith presennol trwy wella trafnidiaeth gyhoeddus a gweithrediadau cludo nwyddau, yn hytrach na gweithredu seilwaith newydd ar draul yr amgylchedd naturiol. Ymgysylltu Cafodd gwarchod yr amgylchedd ei godi yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig yr angen i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy i warchod a gwella ecosystemau a chynefinoedd yn y rhanbarth.	Arloesedd Trafnidiaeth Gynaliadwy (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Powys a Cheredigion yn gwneud cynnydd tuag at helpu Cymru i gyflawni ei nod Sero Net erbyn 2050. Mae'r rhanbarth yn archwilio ymyriadau arloesol i gefnogi trafnidiaeth gynaliadwy ar ffurf cerbydau allyriadau isel a dyfeisiau gwefru sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae Cynlluniau Ynni Lleol ar gyfer Powys a Cheredigion (2024) yn dangos bod 1% o gerbydau ym mhob awdurdod lleol yn gwbl drydanol ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, Ceredigion sydd â'r nifer uchaf o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth, sef tua 176 (yr uchaf yng Nghymru), tra bod gan Bowys tua 85 o ddyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesur Monitro S10). Budd Polisi Bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i ddarparu technoleg arloesol i helpu i ddosbarthu nwyddau ar draws y rhanbarth, gan roi'r cyfle i ddefnyddio cerbydau ULEV, a chefnogi cerbydau o'r fath trwy ddarparu pwyntiau gwefru ar hyd y rhwydwaith priffyrdd. Mae Conn10 yn enghraifft benodol o hyn, lle bydd cyfleoedd a gynigir gan feiciau cargo trydan neu gerbydau allyriadau isel iawn ar gyfer danfoniadau i ganol trefi yn cael eu harchwilio. At hynny, bydd polisiâu megis Conn9 yn ceisio cefnogi gwefru cerbydau trydan ar y rhwydwaith ffyrdd yn unol â Strategaeth Cludo Nwyddau'r Gororau a Chanolbarth Cymru. Ymgysylltu Yn ystod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid cydnabuwyd y gellid gwneud datblygiadau mewn perthynas â thechnoleg a phrofiad trafnidiaeth gyhoeddus teithwyr. Nododd rhanddeiliaid fod diffyg cysylltedd digidol a darparu amserlenni a thocynnau amser real yn ffactor oedd yn dylanwadu ar y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. At hynny, roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod lle i wella sut roedd nwyddau'n cael eu dosbarthu, gan nodi y gellid gwneud datblygiadau o ran cludo nwyddau ar raddfa fawr a dosbarthu parseli bach trwy leihau allyriadau a thechnoleg ULEV.	Celfyddydau a Chwaraeon (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn bwysig ar gyfer llesiant corfforol a meddyliol, cynhwysiant cymdeithasol, cryfhau cysylltiadau cymunedol a datblygu sgiliau bywyd allweddol. Oherwydd natur wledig llawer o aneddiadau yn rhanbarth Canolbarth Cymru, bydd cymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon yn anoddach yn aml oherwydd lleoliad digwyddiadau o'r fath a'u hagosrwydd at y lleoedd lle mae pobl yn byw. Er mwyn atal llesiant meddyliol, unigedd a chysylltiadau cymunedol rhag dirywio, mae'n bwysig bod ymyriadau trafnidiaeth yn amddiffyn cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon yng Nghanolbarth Cymru. Budd Polisi Gall gwelliannau mewn cysylltedd a pherfformiad trafnidiaeth gyhoeddus alluogi'r rhai na allant deithio ar fws neu drên i ddigwyddiadau celfyddydol a chwaraeon ar hyn o bryd i wneud hynny. Gall polisiâu cysylltedd strategol alluogi'r rhai heb gerbyd preifat i gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol a chwaraeon, gan felly wella lefelau llesiant corfforol a meddyliol yng Nghanolbarth Cymru. Mae Conn11 yn enghraifft benodol o bolisi sy'n cefnogi mynediad pobl at ddigwyddiadau celfyddydol a chwaraeon, lle bydd y polisi'n ceisio gwella cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy ag asedau diwylliannol, hamdden a thwristiaeth allweddol yn y rhanbarth (gan gynnwys y Parciau Cenedlaethol), er mwyn gwella cysylltedd a hygyrchedd i dwristiaid ac ymwelwyr ac annog mwy o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd gwelliannau i berfformiad trafnidiaeth gyhoeddus, gan bwysleisio bod gwelliannau i amlder gwasanaethau yng Nghanolbarth Cymru yn faes twf. Cafodd gwelliannau i amlder ei nodi fel ffactor allweddol o ran cynyddu'r defnydd o ddulliau teithio cyhoeddus, gan wella'r mynediad a'r hyblygrwydd sydd gan bobl yng Nghanolbarth Cymru i gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, chwaraeon neu ddiwylliannol.
	Diogelwch a hyder (++) Materion Allweddol yn yr Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae signal ffôn symudol yng Nghanolbarth Cymru ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill Cymru. Dim ond 9.5% o gartrefi yng Nghanolbarth Cymru sydd â	Lleihau gwastraff (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff Cymru yn nodi fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae lleihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth	Dosbarthu Nwyddau mewn Modd Cynaliadwy (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Strategaeth Cludo Nwyddau y Gororau a Chanolbarth Cymru (2021) yn amlinellu'r nod o leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwyrdd sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi rhagweld	Amgylchedd Hanesyddol (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Gellir dod o hyd i lawer o atyniadau twristiaid Canolbarth Cymru mewn lleoliadau gwledig, ac maent yn safleoedd hanesyddol yn aml. Yn 2019, cynhaliwyd Arolwg Ymweliadau

	mynediad at 4G, a dim ond tua hanner y cartrefi sydd â gwasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr. I'w roi yn ei gyd-destun, mae gan 73% o gartrefi yng ngweddill Cymru wasanaethau 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr (<i>Cynllun Economaidd Strategol a Map Ffordd y Fargen Twf, 2020</i>). Mae signal 4G yn hanfodol ar gyfer diogelwch a hyder defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu taith, newid eu cynlluniau teithio, paratoi ar gyfer diffygion trafnidiaeth gyhoeddus a phrynu tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus ar-lein. Er gwaethaf gwelliannau arfaethedig i'r rhwydwaith 4G yng Nghanolbarth Cymru trwy'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, ni fydd llawer o rannau o Ganolbarth Cymru yn elwa o signal 4G o hyd. Mae'r rhwystr systemig hwn yng Nghanolbarth Cymru yn rhwystro pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn effeithio ar deimladau o ddiogelwch a hyder mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gryfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amllder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. Bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i gryfhau teimladau o ddiogelwch a hyder sydd gan bobl yn y system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru trwy wella sut mae dulliau trafnidiaeth gyhoeddus yn rhngweithio â'i gilydd. Bydd cryfhau cysylltedd rhwng trenau a bysiau yn gwella profiad teithwyr, gan ganiatáu i ddefnyddwyr deithio o ddrws i ddrws gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy ac aml gan ddileu'r angen am gerbyd preifat. Bydd Polisi Conn4 yn benodol yn helpu i gynyddu lefelau diogelwch a hyder yn y system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, gan helpu i gryfhau'r berthynas rhwng bysiau a threnau er mwyn darparu profiad trafnidiaeth gyhoeddus mwy cyfleus ac o ansawdd gwell. Ymgysylltu Ni chafodd diogelwch a hyder wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus mewn perthynas â chysylltedd strategol ei grybwyll mewn gweithdai rhanddeiliaid.	yn chwarae rôl allweddol yn hyn, yn enwedig yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae nod cyffredinol y targed hwn yn cyd-fynd yn agos â thargedau Sero Net y genedl, sef lleihau faint o wastraff sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth erbyn 2050. Budd Polisi Bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i gynyddu nifer y teithiau trafnidiaeth gyhoeddus o ddrws i ddrws trwy gryfhau'r berthynas rhwng dulliau trafnidiaeth gyhoeddus, a helpu i wella ansawdd y gwasanaeth i ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus. Gall cysylltedd moddol gwell o fewn trafnidiaeth helpu i leihau nifer y teithiau mewn cerbydau ar y rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig teithiau'r filltir gyntaf a'r filltir olaf. Drwy gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, a'r lleihad dilynol yn yr angen am gar, mae llai o bwysau'n cael ei roi ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Bydd lleihad yn y defnydd o'r rhwydwaith priffyrdd gan gerbydau preifat yn lleihau'n naturiol faint o waith cynnal a chadw sydd ei angen ar gyfer ei gynnal. O ganlyniad, mae'n rhoi cyfle i fod yn fwy dyfeisgar a lleihau'r gwastraff sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ffyrdd, a gwneud defnydd gwell o'r seilwaith presennol. Ymgysylltu Yn ystod ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd y gall newid y ffordd rydym yn defnyddio'r seilwaith presennol helpu i gynyddu cysylltedd strategol ar draws y rhanbarth a gwella effeithlonrwydd cludo nwyddau a phobl.	twf o 40% mewn cludo nwyddau mewn cerbydau nwyddau trwm rhwng 2010 a 2040, gan bwysleisio pwysigrwydd annog y defnydd o danwydd allyriadau isel ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gryfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amllder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. Mae polisiâu cysylltedd strategol yn ceisio newid sut mae nwyddau'n cael eu dosbarthu yng Nghanolbarth Cymru. Mae Conn10 yn ceisio cefnogi'r newid i sut mae parseli bach yn cael eu dosbarthu yng Nghanolbarth Cymru, gan geisio gwella cynaliadwyedd a hyfywedd gwasanaethau cludo nwyddau parseli bach a milltir olaf ac ystyried cyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio a chyfuno. Mae Conn8 yn ceisio cefnogi cyfleoedd cludo nwyddau ar y rheilffyrdd, gan ystyried Strategaeth Cludo Nwyddau'r Gororau a Chanolbarth Cymru trwy gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer 'trên archfarchnad'; nodi'r seilwaith y mae ei angen i alluogi newid moddol i gludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Ymgysylltu Trafodwyd cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yn gyson drwyddi draw a'i botensial i helpu i annog newid moddol o fewn y diwydiant cludo nwyddau. Cydnabuwyd bod cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yn faes twf, ac y byddai cydymffurfio â strategaethau cludo nwyddau rhanbarthol yn allweddol i ddatblygu cludo nwyddau mewn modd cynaliadwy ym Mhowys a Cheredigion.	Dyddiol Prydain Fawr (2019), gan nodi bod y gyfran fwyaf o fathau o deithiau i Ganolbarth Cymru wedi cael eu gwneud i bentrefi/cefn gwlad (44%). Yn 2019, y trydydd awdurdod lleol a ymwelwyd ag ef fwyaf ar ôl Caerdydd ac Abertawe oedd Powys gyda 6.9 miliwn o ymweliadau. Wedi'i gofnodi yn yr un arolwg, Ceredigion oedd yr ail ardal fwyaf arwyddocaol yng Nghymru o ran gwariant ar ôl Caerdydd, gyda £329 miliwn wedi'i wario ar ymweliadau dydd twristiaid. O ganlyniad, mae'r ddau awdurdod lleol yn gartref i amgylcheddau hanesyddol sy'n cael llawer o ymwelwyr. Budd Polisi Mae polisiâu cysylltedd strategol yn canolbwyntio ar y gallu i gludo pobl a nwyddau, ar draws nifer o ddulliau teithio, i gyrchfannau ar draws y rhanbarth. Mae polisiâu cysylltedd strategol hefyd yn edrych ar gryfder y cysylltiadau trafnidiaeth hyn, gyda phwyslais ar amllder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus a chydnerthedd y rhwydwaith. O ganlyniad, bydd polisiâu cysylltedd strategol yn helpu i warchod yr amgylcheddau hanesyddol trwy hyrwyddo dulliau trafnidiaeth gyhoeddus ac atal gweithredu ymyriadau trafnidiaeth sy'n peryglu'r amgylchedd hanesyddol. Mae polisiâu cysylltedd strategol yn ceisio gwneud defnydd gwell o seilwaith presennol trwy wella trafnidiaeth gyhoeddus a gweithrediadau cludo nwyddau yn hytrach na gweithredu seilwaith newydd ar draul yr amgylchedd hanesyddol. Ymgysylltu Yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid nodwyd bod y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd twristiaid ar draws y ddau awdurdod lleol yn gyfyngedig, gan arwain yn aml at dagfeydd mewn atyniadau twristiaid ar draul yr amgylchedd adeiledig.
Grŵp Polisiâu Newid Moddol	+ ++ ++	++ + +	+ + + 0	+ + +
	Cydraddoldeb (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Ar hyn o bryd, mae tuag 1% o'r boblogaeth yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 800m i orsaf drenau, tra bod y ffigur ar draws Cymru gyfan yn 13%. Mae ychydig dros 25% o bobl yng Nghanolbarth Cymru yn byw o fewn pellter cerdded 400m i safle bws, o'i gymharu â 70% yng Nghymru gyfan (<i>Llwybr Newydd: Data a thuueddiadau trafnidiaeth, 2020; Mesur Allweddol S3 - TrC</i>). Mae diffyg cysylltedd cynaliadwy â thrafnidiaeth gyhoeddus yn tynnu sylw at rwystr ffisegol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, gan atal pobl, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, rhag cael mynediad at wasanaethau allweddol sy'n hanfodol i fywyd bob dydd. Budd Polisi Mae polisiâu newid moddol yn ceisio darparu cymhellion i ddefnyddwyr newid dulliau o ddefnyddio cerbydau preifat i ddefnyddio'r bws at ddibenion bob dydd. Mae polisiâu'n ceisio cefnogi model gwasanaeth canolog a chysylltiedig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus i drefi allweddol yn cael ei gwella er mwyn i bobl allu cael mynediad at y gwasanaethau a'r nwyddau y mae eu	Lleihau Allyriadau Carbon a Newid Moddol (++) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r car yw'r dull teithio mwyaf cyffredin yng Nghanolbarth Cymru ac yn cyfrif am dros 50% o deithiau cymudo ym Mhowys a Cheredigion. Mae perchnogaeth ceir yng Nghanolbarth Cymru yn uwch nag yng ngweddill Cymru, gyda 15% ac 13% o gartrefi ym Mhowys a Cheredigion yn berchen ar 3 neu ragor o gerbydau, o'i gymharu â 10% ar draws Cymru gyfan. O ganlyniad, mae'r ddibyniaeth ar gerbydau yn uchel yng Nghanolbarth Cymru. Budd Polisi Mae polisiâu newid moddol yn ceisio darparu cymhellion i ddefnyddwyr newid dulliau o ddefnyddio cerbydau preifat i ddefnyddio'r bws at ddibenion bob dydd. Mae polisiâu'n ceisio cefnogi model gwasanaeth canolog a chysylltiedig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus i drefi allweddol yn cael ei gwella er mwyn i bobl allu cael mynediad at y gwasanaethau a'r nwyddau y mae eu	Creu Lleodedd (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio creu lleodedd fel 'dull cyfannol o gynllunio a dylunio mannau...', lle mae'r nod yw creu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, hapusrwydd, iechyd a llesiant (<i>Creu Lleodedd Cymru, 2020</i>). Budd Polisi Mae polisiâu newid moddol yn ceisio rhoi cymhellion i ddefnyddwyr newid dulliau o ddefnyddio cerbydau preifat i fysiau at ddibenion bob dydd. Mae polisiâu'n ceisio cefnogi model gwasanaeth canolog a chysylltiedig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus i drefi allweddol yn cael ei gwella er mwyn i bobl allu cael mynediad at y gwasanaethau a'r nwyddau y mae eu hangen arnynt. Mae'r gwelliannau'n cynnwys gwasanaethau mwy uniongyrchol, oriau gweithredu estynedig a gwasanaeth mwy aml - y bwriad yw cyflawni pob un ohonynt trwy roi pwyslais ar weithredu safon gyson ar gyfer y rhwydwaith bysiau craidd. Bydd polisiâu newid moddol a'u nod o wella'r cynnig trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru yn cyfrannu at greu mannau cyhoeddus o ansawdd uchel yng Nghanolbarth Cymru trwy roi	Y Gymraeg (+) Materion Allweddol o'r Achos dros Newid Mae gan Geredigion y drydedd boblogaeth uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 44%, gyda thua 16% ym Mhowys (Cyfrifiad, 2021). O ganlyniad, mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth, ac er mwyn amddiffyn a gwella'r iaith rhaid i bolisiâu'r CTRh hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg. Budd Polisi Mae polisiâu newid moddol yn ceisio rhoi cymhellion i ddefnyddwyr newid dulliau o ddefnyddio cerbydau preifat i fysiau at ddibenion bob dydd. Mae polisiâu'n ceisio cefnogi model gwasanaeth canolog a chysylltiedig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus i drefi allweddol yn cael ei gwella er mwyn i bobl allu cael mynediad at y gwasanaethau a'r nwyddau y mae eu hangen arnynt. Mae'r gwelliannau'n

	ddefnyddwyr newid dulliau o ddefnyddio cerbydau preifat i ddefnyddio'r bws at ddibenion bob dydd. Mae polisïau'n ceisio cefnogi model gwasanaeth canolog a chysylltiedig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus i drefi allweddol yn cael ei gwella er mwyn i bobl allu cael mynediad at y gwasanaethau a'r nwyddau y mae eu hangen arnynt. Mae'r gwelliannau'n cynnwys gwasanaethau mwy uniongyrchol, oriau gweithredu estynedig a gwasanaeth mwy aml - y bwriad yw cyflawni pob un ohonynt trwy roi pwyslais ar weithredu safon gyson ar gyfer rhwydwaith bysiau craidd. Mae Mod3 yn enghraifft benodol o bolisi a fydd yn helpu i leihau'r rhwystrau ffisegol a systemig i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan geisio gweithio mewn partneriaeth â TrC i ddatblygu rhwydwaith mwy cydlynol a chwbl integredig o wasanaethau bysiau lleol sy'n gwasanaethu anghenion newidiol cymunedau ar draws y rhanbarth yn well ac yn sicrhau bod effeithiau lleol newidiadau i'r rhwydwaith/amserlennu yn cael eu hystyried. Byddai anelu at gydlynu ac integreiddio gwell yn helpu i ddarparu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig, er mwyn gallu cyrraedd cyfleusterau allweddol a lleihau'r ddibyniaeth ar geir ar gyfer teithiau bob dydd. Ymgysylltu Dangosodd adborth o'r ymgysylltu â rhanddeiliaid fod mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn broblem fawr yn rhanbarth Canolbarth Cymru, gyda sawl un yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'n bosibl cyrraedd llawer o'r gorsafoedd bysiau neu drenau heblaw mewn cerbyd preifat.	hangen arnynt. Mae'r gwelliannau'n cynnwys gwasanaethau mwy uniongyrchol, oriau gweithredu estynedig a gwasanaeth mwy aml - y bwriad yw cyflawni pob un ohonynt trwy roi pwyslais ar weithredu safon gyson ar gyfer y rhwydwaith bysiau craidd. Bydd polisïau newid moddol yn helpu i gyflawni targedau cenedlaethol a rhanbarthol o gyflawni Sero Net erbyn 2050, a thargedau lleihau rhanbarthol o 54%. Mae pob un o'r polisïau newid moddol yn canolbwyntio'n helaeth ar wneud y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch a chyfleus i bobl mewn aneddiadau trefol a gwledig yng Nghanolbarth Cymru. Drwy wella'r cynnig trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r angen i ddefnyddio car bob dydd yn cael ei leihau, gan ysbrydoli newid moddol a lleihau allyriadau carbon o ganlyniad. Ymgysylltu Roedd barn rhanddeiliaid wedi cadarnhau bod angen newid moddol er mwyn helpu i gyfrannu at dargedau Sero Net cenedlaethol a rhanbarthol. Yn gysylltiedig â'r pwnc hwn oedd yr angen am ddewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy gwell i hwyluso newid dulliau o'r cerbyd preifat.	cymhelliant i bobl newid dulliau teithio o gerbydau preifat i drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd cael gwared â cherbydau preifat o'r rhwydwaith trafnidiaeth yn helpu tuag at ddatgarboneiddio cymunedau trefol a gwledig, gan greu mannau sy'n hwyluso gallu pobl i dreulio amser ynddynt yn hytrach na theithio drwyddynt. O ganlyniad, bydd y polisïau hyn yn helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanolfannau lleol, gan hybu'r economi leol a chreu mannau diogel i gerddwyr. Ymgysylltu Roedd ateb anghenion penodol cymunedau gwledig yng Nghanolbarth Cymru yn thema graidd yn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda sawl rhanddeiliad yn nodi bod mynediad at weithgareddau hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus yn broblem, a bod gweithgareddau o'r fath yn hanfodol ar gyfer creu lleoedd a meithrin ymdeimlad o gymuned.	cynnwys gwasanaethau mwy uniongyrchol, oriau gweithredu estynedig a gwasanaeth mwy aml - y bwriad yw cyflawni pob un ohonynt trwy roi pwyslais ar weithredu safon gyson ar gyfer rhwydwaith bysiau craidd. Bydd gwelliannau i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, megis uchelgeisiau i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth cydlynol a chynhwysfawr (Mod1) ac uchelgeisiau i ddatblygu rhwydwaith mwy cydlynol a chwbl integredig o wasanaethau bysiau lleol (Mod2) yn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad at wasanaethau Cymraeg, megis addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfleusterau diwylliannol a hamdden Cymraeg. Bydd galluogi mynediad trafnidiaeth gyhoeddus gwell at wasanaethau Cymraeg yn gwella teimladau o lesiant ymysg siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth yn ogystal â'r rhai sy'n anelu at ddysgu Cymraeg ar lefel uwch. Ymgysylltu Mewn gweithdai rhanddeiliaid nodwyd gwelliannau i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a'r potensial i hwyluso mynediad gwell at wasanaethau a chyfleusterau Cymraeg.
